

Aled Hywel Beddoe Hughes (1802964)

BA Addysg Gynradd gyda SAC

**Cylch 1 Astudiaethau Proffesiynol ac Addysgegol: Ymchwilio i'r Dysgu:
beth, sut a pham ydw i'n addysgu?**

ECAD4010C

**Teitl yr Aseiniad: Dadansoddiad a gwerthusiad critigol o'r offeryn
ymchwil 'Graddfa Leuven'.**

Targedau:

- Cofia osod targedau (s sut ceisiaist ymateb atynt) ar y cychwyn.
- I ymgysylltu'n ddwfn gyda darllen ehangach gan gyfeirio ato'n gyson gywir (yn ol disgwyliadau'r canllawiau cyfeirnod) i gefnogi bob pwynt a wnaed.
- I gyfleu bob pwynt yn dy eiriau dy hunan, gan osgoi defnyddio dyfyniadau hir i gyfleu syniadau.

Yn yr aseiniad yma byddaf yn canolbwyntio ar amgylcheddau addysgu a'r effaith mae gwahanol fathau o amgylchedd dysgu yn cael ar ddisgyblion. Yn bennaf byddaf yn canolbwyntio ar y cwestiwn: ***"I ba raddau y mae'r amgylchedd dysgu yn darparu cyfleoedd ar gyfer ymglymiad a dysgu disgyblion?"***. Mae Yr Athro Donaldson yn rhoi pwyslais mawr ar gryfderau pedagogaid y Cyfnod Sylfaen.

'Sound pedagogy requires high quality teachers with a sound understanding of the why and how of teaching as well as the what' (Donaldson, 2015).

Mae creu amgylcheddau dysgu sydd yn ysgogi'r disgyblion yn rhan holl bwysig o bedagogaid y Cyfnod Sylfaen. Os mae disgyblion yn teimlo yn gyfforddus ac yn ddiogel mae yna well cyfleoedd ar gyfer dysgu gwerthfawr. Mae defnydd Ysgol Gynradd Gymunedol Monkton o amgylcheddau dysgu yn cael eu nodi fel enghraifft o arfer da gan Estyn. Mae gan yr ysgol ganran uchel iawn o blant gydag Anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae'r ysgol yn ceisio creu amgylchedd sydd yn cludo'r disgyblion i lefydd arall: "Window to the world". Mae creu amgylcheddau dychmygol a thu hwnt i'w profiadau arferol. Mae hwn yn rhoi y cyfle da i ysgogi dychymyg y disgyblion. Mae hefyd yn gallu cael effaith positif ar ymddygiad y disgyblion. Nodai Estyn;

'The behaviour of nearly all the pupils is excellent. There have been no exclusions over the last 6 years' (Estyn, 2019).

Mae hyn yn amlygu'r effaith bositif gall defnydd o amgylcheddau dysgu effeithiol gael ar ddisgyblion.

Mae amgylcheddau dysgu hapus a phositif hefyd yn cael effaith mawr ar y disgyblion, Mae disgyblion yn medru dysgu yn well os ydynt yn hapus.

'If we've got well-being we've got a lot... it indicates for us that everything that has to do with the personal social and emotional development of the child is going well' (Leavers, 2017).

Mae'n bwysig iawn fod disgyblion yn teimlo eu bod mewn amgylchedd diogel, lle maent yn gartrefol lle maent yn cael eu hannog i ymgymryd â heriau. Credai Bronfenbrenner fod gan yr ysgol dylanwad enfawr ar y plentyn, nodau Bronfenbrenner fod yr ysgol yn rhan o'r feicro-system sef y cylch ddylanwad mwyaf uniongyrchol (Atodiad 1). Mae yna sawl wahanol fath o amgylcheddau dysgu neu lefydd y gallwn greu amgylcheddau dysgu:

- Dosbarth Cyfan; Gallwn greu amgylchedd dysgu tu fewn y dosbarth/grŵp ar y carped lle mae gan bob plentyn y cyfle i gyfrannu/arwain.
- Unigol; Y plentyn yn gweithio yn annibynnol ar dasg a defnyddio sgiliau datrys problemau. Wrth greu cyfleoedd i'r disgyblion ddysgu a gweithio yn annibynnol rhaid ystyried damcaniaeth Parth datblygiad procsimol (Z.P.D) lle os ydyn yn gosod gwaith sy'n rhy hawdd neu rhy galed ni fydd dysgu gwerthfawr yn medru digwydd

'The zone of proximal development (ZPD) is the distance between the actual development level as determined by independent problem solving and the level of potential development as determined through problem solving under adult guidance or in collaboration with more capable peers' (Vygotsky, 1978).

- Chwarae rôl/ chwarae tu allan- cael chwarae ac ymwneud â'r amgylchedd trwy ddefnyddio eu dychymyg yn sefyllfaoedd byd go iawn neu tu hwnt i'r byd go iawn.
- Taith/Ymwelwyr; bydd y dysgwyr yn dysgu wrth amgylcheddau tu hwnt i amgylchedd yr ysgol ar daith addysgiadol neu dysgu wrth arbenigwyr sydd yn dod i'r ysgol.

Fel darpar athrawon ac athrawon mae gennym ddyletswydd i roi'r cyfle gorau i bob disgybl i lwyddo. Mae astudiaeth Rosenthal yn dangos fod gan athrawon ddylanwad enfawr ar ymddygiad a chyrhaeddiad disgyblion trwy effaith Pygmalion. Mae'r e-gofnodyn "American Psychologist" yn diffinio'r effaith pygmalion fel

'The phenomenon whereby one person's expectation of another person's behaviour comes to serve as a self-fulfilling prophecy' (American Psychologist, 2003)

Yn yr arbrawf roedd y ffordd cafodd ddisgyblion eu trin gan eu hathrawon wedi newid eu canlyniadau yn sylweddol; roedd y disgyblion wedi perfformio llawer gwell os oedd yr athrawon yn

disgwyl mwy ohonynt. Roedd canfyddiadau'r athrawon wedi dylanwadu ar gyrhaeddiad y disgyblion. Mae'n bwysig ein bod yn rhoi yn union yr un cyfleoedd i bob disgybl.

Wrth greu amgylcheddau dysgu a chynllunio gweithgareddau, mae yna bwyslais ar gynllunio ar gyfer pob math o ddysgwr ac yna ceisio cynnwys gweithgareddau sydd yn bodloni pob math o ddysgwyr. Mae llawer o athrawon yn defnyddio model V.A.R.K (sef Visual, Auditory, Reading/ Writing, a Kinesthetics) Fleming i ddarganfod sut mae disgyblion unigol yn dysgu orau ac yna yn cynllunio ar eu cyfer. Er hyn, mae rhaid nodi nid oes llawer o ymchwil wedi cael eu gwneud i gefnogi'r hyn mae Fleming yn awgrymu. Fel ymarferwyr sy'n rhan o broffesiwn ymholgar mae angen fod yn sgeptigol o'r ymchwil a'r dulliau yr ydyn yn defnyddio wrth addysgu. Rhaid sicrhau fod yr hyn yr ydym yn defnyddio yn ddibynadwy. Mae yna esiampl weddol enwog o ddefnydd "psuedo-science" yn y maes addysg. Mae llawer o ysgolion wedi bod yn defnyddio'r rhaglen Brain Gym er nad oes unrhyw ymchwil na gwybodaeth wyddonol i'w cefnogi.

Mae Estyn yn nodi fod Ysgol Bryn Coch yn darparu arfer da yn eu defnydd o amgylcheddau dysgu tu fewn a thu allan. Mae'r ysgol wedi datblygu amgylchedd 'Free Flow' lle mae disgyblion yn medru symud yn rhydd o du fewn a thu allan. Mae'r Ysgol yn ceisio creu cyfleoedd ar gyfer dysgu tu fewn a thu allan ar gyfer cyfoethogi darpariaeth gwersi iaith a mathemateg.

'Pupils benefit from learning outdoors by developing their skills in a stimulating environment that is well planned and maximises opportunities for progression' (Estyn, 2019) .

Mae cyfleoedd ar gyfer dysgu a chwarae tu allan yn medru hybu'r disgyblion i fyw bywyd iachus ac yn ymladd gordewdra. Mae'r ddarpariaeth o weithgareddau tu allan yn medru datblygu sgiliau datrys problemau ac yn rhoi'r cyfle i'r plant archwilio, arbrofi a darganfod. Mae ysgol Plas-y-felin hefyd yn cael eu nodi gan Estyn fel enghraifft dda o ddefnydd o ardaloedd tu allan. Roedd staff yr ysgol wedi sylweddoli nid oedd digon o gyfleoedd gan y disgyblion i chwarae tu allan yn ddiogel tu fas i oriau'r ysgol ac felly mae'r staff yn cynllunio amseroedd a chyfleoedd ar gyfer chwarae gwerthfawr tu fewn yr ysgol. Nodir adroddiad Estyn fod yr ymarfer wedi gwella agweddau'r plant tuag at chwarae ac wedi sicrhau amgylchedd dysgu tawel. Mae hefyd yn nodi fod 'pupil attitudes to self and school' (P.A.S.S) yn dangos fod lles a mwynhad y disgyblion hefyd wedi gwella.

'Purposeful experiences on the outside can be catalyst for powerful and memorable learning' (Institute for Outdoor Learning).

Credai Yr Athro Donaldson fod rhaid rhoi'r cyfle i ddisgyblion gael profiadau y tu allan i'r ystafell ddosbarth.

'Dylai plant a phobl ifanc gael cyfleoedd i ddysgu o arbenigedd a phrofiad o'r tu allan i'r ysgol.' (Donaldson, 2015)

Credai hefyd fod angen cyfle ar y plant i fod yn rhan o greu amgylchedd eu hunan gan ddefnyddio eu dychymig. Mae llais y disgybl yn rhan allweddol o bedagogiaid y Cyfnod Sylfaen. Cytuna Piaget gyda pwysigrwydd llais y disgybl a credai fod gan disgyblion syniadau arbennig ar gyfer eu haddysg.

***'Children have a real understanding only of that which they invent themselves and each time we try to teach something too quickly we keep them from reinventing themselves.'* (Piaget, 1972 allan o 'Y Plentyn Bach').**

Credai Montessori taw nid beth mae'r athro/athrawes yn medru cynnig sydd yn diffinio addysg, ond yn hytrach mae addysg yn broses naturiol sydd yn cael eu cynnal gan yr unigolyn. Credai hefyd taw rôl yr athro yw paratoi'r gweithgareddau wedi gwasgaru ar draws amgylchedd sydd wedi paratoi yn ofalus.

Mae'n bwysig i greu amrywiaeth eang o gyfleoedd i ddisgyblion dysgu a chwarae tu allan i'r dosbarth a threfnu adnoddau priodol ar gyfer chyfathrebu a chreu perthynas gydag eraill. Mae angen weithgareddau sy'n cynnwys dewis, darganfod a datrys problemau. Dylid hefyd sicrhau fod yna cydbwysedd rhwng anghenion y plant ac amcanion dysgu'r oedolion. Mae'r cynnydd yn y defnydd technoleg megis gemau cyfrifiadur a diffyg mannau diogel i chwarae tu allan i'r ysgol yn peri gofud. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn adnabod pwysigrwydd chwarae yn lles plentyn.

'Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cydnabod bod effaith cymdeithas fodern ar fywydau plant wedi cyfyngu'n sylweddol ar eu cyfleoedd i chwarae rhydd ac yn sgil hyn, wedi arwain at brinder o gyfleoedd chwarae yn yr amgylchedd gyffredinol. Mae felly wedi ymrwymo i hybu'r gwaith o ddarparu cyfleusterau chwarae 'cyd adferol' i bob plentyn yng Nghymru sy'n briodol ac sy'n ei hysgogi a'i herio' (Llywodraeth y Cynulliad, 2002).

Er bod y mwyafrif yn adnabod pwysigrwydd chwarae a dysgu tu allan mae yna rai sydd yn credu fod gan dechnoleg hefyd rhan bwysig iawn i greu amgylcheddau dysgu. Credau llawer fod Virtual Reality yn gallu fod o fudd wrth greu amgylcheddau dysgu. Yn erthygl yn y Guardian o'r enw 'If you need to go for a walk.... Why not wander around a video game?' Mae Yr Athro Alenda Chang yn credu fod gan gemau cyfrifiadur cymaint os nad yn fwy i gynnig na'r byd go iawn a gall ysgolion defnyddio hwn i gludo disgyblion i lefydd tu hwnt i'r dychymig.

Yn yr ymchwil yma byddaf yn arsylwi ar grŵp o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen. Byddaf yn defnyddio graddfa Leuven (Atodiadau 2 a 3) er mwyn gallu arsylwi ar lefel lles y disgyblion. Rwyf wedi cynllunio amserlen arsylwi i recordio data cysylltiedig gyda'r cwestiwn ymchwil. Cafodd graddfa Leuven eu hysgrifennu gan y Damcaniaethwr addysg Ferre Leavers. Mae'r raddfa yn ein helpu i ddeall pa mor ganolbwyntiedig a chyffyrddus mae'r disgyblion yn y sefyllfa. Wrth greu amserlen arsylwi byddaf yn sicrhau fy mod i yn cofnodi canlyniadau ar amseroedd pwysig a chofnodi yn erbyn gofynion y raddfa Leuven. Mae lefel uchel o les a ffocws yn sicrhau fod dysgu gwerthfawr a dwfn. Mae arsylwi plant yn y ffordd yma yn fantais fawr i athrawon i wneud asesiadau o ddisgyblion sy'n peri gofid, a defnyddio fel rhan o adfyfrio proffesiynol gan roi i ni ddealltwriaeth dyfnach o'r plant.

***'A good teacher constantly questions his or her actions and impact, continuously evaluates his or her teaching and works together with other teachers to understand what they mean by impact.'* (Hattie and Zeirer, 2019)**

Gellir hefyd defnyddio'r arsylwi er mwyn adnabod achosion o 'Critical Incidents' ac yna defnyddio'r achosion yma i wella ein hymarferion. Gallwn ddefnyddio 'flow chart' er mwyn cofnodi'r achosion ac ein hymatebion (gwelir atodiad 4).

Mae moeseg yn rhan holl bwysig wth cynnal ymchwil ac fel darpar athrawon mae gennym ddyletswydd i gyd-fynd gydag arferion moesegol.

'Ethics are a set of moral principles or norms that are used to guide moral choices of behaviour and relationships with others' (Gray, 2018).

Fel rhan o gyd-fynd gyda'r arferion moesegol mae angen mae cyfrinachedd y disgyblion yn rhan allweddol o hwn. Pan fyddwn yn cynnal ymchwil rhaid sicrhau ein bod yn parchu hawliau'r cyfranogwyr i gyfrinachedd ac anhysbysrwydd.

'The lives and stories that we hear and study are given to us under a promise that promise being that we protect those who have shared them with us' (Denzin, 1989)

Mae rhaid parchu hawl y disgyblion i gyfrinachedd ac fel ymarferion crefftus mae dyletswydd iddyn i gadw ein cofnodion data yn anhysbys. Mae hyn yn cynnwys peidio cofnodi enwau na chyfeiriadau (Dynodwyr uniongyrchol) ond hefyd osgoi cofnodi unrhyw ddata arall gellir cael i ddefnyddio i ddarganfod gwybodaeth bersonol y cyfranogwyr (Dynodwyr anuniongyrchol). Yn gysylltiedig â moeseg ymchwil mae rhaid sôn am y dilema o ganiatâd. Fel gellir pobl ifanc dan yr ddeunaw ni all y cyfranogwyr rhoi eu caniatâd ond all rhoi cydsyniad, er mwyn rhoi cydsyniad mae rhaid eu bod yn deall cymaint ag sy'n bosibl, gall wneud hyn trwy lyfrau stori/lluniau i blant bach iawn. Yn ogystal â hyn mae'r oedolion sydd yn gyfrifol am y disgyblion yn gallu rhoi caniatâd ar eu rhan.

Wrth arsylwi ar weithgaredd grŵp chwarae rôl tu allan cofnodais fy narganfyddiadau yn fy amserlen arsylwi (Atodiad 4). Roedd angen i'r disgyblion i ddylunio ac yna adeiladu llong môr-ladron. Roedd y disgyblion yn defnyddio'r llong i chwarae rôl môr ladron a chwilio am drysor. Yna gwnaeth rhai disgyblion ddylunio a chreu bocs er mwyn cadw'r trysor neu dylunio map trysor roedd yn arwain tuag at y trysor. Ar ddiwedd yn wers roedd y disgyblion yn defnyddio'r eirfa môr ladron i ddisgrifio'r hyn maent wedi neud. Mae pob plentyn yn edrych fel petai yn ymwneud a'r dasg yn dda ac yn mwynhau. Mae hwn yn golygu eu bod yn colli mas ar y cyfle i gyfle eu syniadau nhw. Mae'r plant yn gweithio yn dda o fewn grwpiau. Mae gan y plant yn teimlo eu bod wedi llwyddo ar ôl cwblhau'r dasg gasglu trysor.

Mae angen iddyn nhw ddefnyddio eu sgiliau rhesymu er mwyn ateb problemau. Mae hwn yn clymu i mewn i ddamcaniaeth Vygotsky am y Parth datblygiad procsimol lle mae angen lefeli'r dasg braidd tu hwnt i allu'r disgybl er mwyn i ddysgu cymryd lle. Defnydd o'r eirfa mor leidr ac yn medru esbonio'r hyn mae wedi gwneud. (recount experiences). Cafodd sawl y cyfle i ddatblygu sgiliau creadigol wrth ddylunio a chreu'r llong ar focs trysor. Yn ystod y weithgaredd fe daeth sawl gwahanol gymeriadau yn amlwg a phawb yn dangos eu gwahanol gryfderau ac mae pawb yn cael budd a llwyddiant o'r gweithgaredd. Mae'n amlwg fod y goreuon yn y dosbarth yn dod i'r blaen yn

ystod y gweithgaredd hwn, mae 1 neu 2 ddisgybl i weld yn arwain y gweithgaredd o hyd. Oherwydd hwn mae rhai o'r disgyblion mwy tawel yn gorfod dilyn cyfarwyddiau eraill.

Er bod y disgyblion yn edrych fel petai yn mwynhau'r dasg nid yw hwn o reidrwydd yn golygu eu bod yn ymwneud a'r dysgu.

'A child can be happy [and] getting on with the task and never cause any problems but that doesn't mean they are being challenged' (Leavers, 2017).

yn ogystal â hwn mae'n amlwg fod y goreuon yn y dosbarth yn dod i'r blaen yn ystod y gweithgaredd hwn oherwydd mae un neu dau ddisgybl i weld yn arwain y gweithgaredd o hyd. Oherwydd hwn mae rhai o'r disgyblion mwy tawel yn gorfod dilyn cyfarwyddiau eraill. Mae hyn yn golygu fod y disgyblion yn gallu cael anghofio wrth arsylwi, a'r disgyblion yma efallai sydd angen y sylw fwyaf.

Mae'r ddarpariaeth o adnoddau safonol wedi cyfoethogi darpariaeth y gweithgaredd ac felly rwyf yn argymhell fod sicrhau safon uchel o adnoddau yn holl bwysig yn symud ymlaen. mae safon uchel o adnoddau yn gallu sicrhau safon uchel o ddarpariaeth addysg. Gwelir atodiad 5 am graff sy'n gysylltiedig â safon adnoddau.

'Children in classrooms with inadequate material resources experience worse outcomes on all four emotional and behavioural measures' (Milkie and Warner, 2011)

Nodais rhai cryfderau gyda'r defnydd o amserlen arsylwi a graddfa Leuven fel offer. Roedd defnyddio'r amserlen wedi sicrhau fod gan yr arsylwi ffocws clir. Roedd hefyd yn rhoi cyfle i mi arsylwi ar y disgyblion yn amgylchedd naturiol.

Oherwydd nad oeddwn yn bresennol yn ystod y wers nac wedi amharu ar y wers yn unrhyw ffordd nad wyf yn credu fy mod i wedi cael unrhyw effaith ar y disgyblion wrth gynnal fy ymchwil. Er hyn rwyf wedi nodi rhai gwendidau yn ffordd rwyf wedi cynnal fy ymchwil. Oherwydd gwnes i gynnal yr arsylwi ar fformat gwylio fideo roedd yn anodd iawn i allu arsylwi ar bawb oherwydd nid oedd y camera yn eu recordio yn ogystal â hyn roedd y fideo wedi eu golygu ac felly efallai fy mod wedi colli digwyddiadau pwysig.


Cyfeirnod:

- Grigg, Russell. Becoming an Outstanding Primary School Teacher. Second ed. 2015. Print.
- Siencyn, and Siencyn, Sian Wyn. Y Plentyn Bach : Cyflwyniad I Astudiaethau Plentyndod Cynnar. Caerfyrddin: Cyhoeddiadau Coleg Y Drindod, 2008. Print.
- Siencyn, Sian Wyn. Y Cyfnod Sylfaen 3-7 Oed : Athroniaeth, Ymchwil Ac Ymarfer. Caerfyrddin: Cyhoeddiadau Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, 2010. Print.

- Donaldson, G (2015) 'Dyfodol Llwyddiannus Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru' Llywodraeth Cymru, Caerdydd
- www.bera.ac.uk. (n.d.). *Researching with young and developmentally young children – ethical considerations, dilemmas and compromises*. [online] Available at: <https://www.bera.ac.uk/blog/researching-with-young-and-developmentally-young-children-ethical-considerations-dilemmas-and-compromises> [Accessed 15 May 2020].
- Hattie, John, and Klaus Zierer. Visible Learning Insights / John Hattie, Klaus Zierer. 1st. ed. 2019. We
- Denzin, Norman K. The Research Act : A Theoretical Introduction to Sociological Methods. 3rd ed. Englewood Cliffs, N.J.: Prentice Hall, 1989. Print.
- Milkie, Melissa, and Catharine Warner. "HOW DOES THE CLASSROOM LEARNING ENVIRONMENT AFFECT CHILDREN'S MENTAL HEALTH?" *Journal of Health and Social Behavior* 52.1 (2011): 3. Web.
- McKenna, Lisa, and Gray, Richard. The Importance of Ethics in Research Publications: 147-148. Web.
- Outdoor-learning.org. (2019). *About Outdoor Learning*. [online] Available at: <https://www.outdoor-learning.org/Good-Practice/Research-Resources/About-Outdoor-Learning>.
- Llywodraeth yn Gynulliad, 2002 yn Cyngor Sir y Fflint, 2011, *Strategaeth chwarae Sir y Fflint 2011-2014, Dogfen strategaeth* Hawlfraint Y Goron, Fflint.
- How Does Well-being & Involvement Contribute to the Quality of Learning. (2017). *YouTube*. Available at: <https://www.youtube.com/watch?v=2ZPrMbppyhA> [Accessed 13 Oct. 2019].
- www.estyn.gov.wales. (n.d.). *Search | Estyn*. [online] Available at: <https://www.estyn.gov.wales/search?search=outdoor+play> [Accessed 15 May 2020].

Atodiadau

1.



2.

The Leuven Scale for Well-being (in learning)

It's time for an honest observation of your students

Based on: <http://www.plymouth.gov.uk/documents-ldtoolkit/leuven.pdf>

Let's hope teachers are designing and evaluating classroom activities with an aim that every learner might reach a state of **flow**.

Extremely low	Low	Moderate	High	Extremely High
 The child clearly shows signs of discomfort such as crying or screaming. They may look dejected, sad, frightened or angry. The child does not respond to the environment, avoids contact and is withdrawn. The child may behave aggressively, hurting him/herself or others.	 The posture, facial expression and actions indicate that the child does not feel at ease. However, the signals are less explicit than under level 1 or the sense of discomfort is not expressed the whole time.	 The child has a neutral posture. Facial expression and posture show little or no emotion. There are no signs indicating sadness or pleasure, comfort or discomfort.	 The child shows obvious signs of satisfaction (as listed under level 5). However, these signals are not constantly present with the same intensity.	 The child looks happy and cheerful, smiles, cries out with pleasure. They may be lively and full of energy. Actions can be spontaneous and expressive. The child may: • talk to him/herself, • play with sounds, • hum, sing. The child appears relaxed. The child expresses self-confidence and self-assurance.

By Richard Wells
Twitter: @EduWells
EduWells.com


3.

The Leuven Scale for Involvement (in learning)

It's time for an honest observation of your students

Based on: <http://www.plymouth.gov.uk/documents-ldtoolkit/leuven.pdf>

Let's hope teachers are designing and evaluating classroom activities with an aim that every learner might reach a state of **flow**.

Extremely low	Low	Moderate	High	Extremely High
 Activity is simple, repetitive and passive. The child seems absent and displays no energy. They may stare into space or look around to see what others are doing.	 Frequently interrupted activity. The child will be engaged in the activity for some of the time they are observed, but there will be moments of non-activity when they will stare into space, or be distracted by what is going on around.	 Mainly continuous activity. The child is busy with the activity but at a fairly routine level and there are few signs of real involvement. They make some progress with what they are doing but don't show much energy and concentration and can be easily distracted.	 Continuous activity with intense moments. The child's activity has intense moments and at all times they seem involved. They are not easily distracted.	 The child shows continuous and intense activity revealing the greatest involvement. They are concentrated, creative, energetic and persistent throughout nearly all the observed period.

By Richard Wells
Twitter: @EduWells
EduWells.com

Look out for: focused concentration on the present moment; loss of self-consciousness; activity that's intrinsically rewarding; Distorted awareness of time; personal agency.

Cwestiwn Ymchwil: ***"I ba raddau y mae'r amgylchedd dysgu yn darparu cyfleoedd ar gyfer ymglymiad a dysgu disgyblion?"***

Adran A
(Cyd-Destun)

Lefel Cyfraniad												
Disgrifiad o'r wers	Roedd angen i'r disgyblion i ddylunio ac yna ei adeiladu llong môr ladron. Roedd y disgyblion yna yn defnyddio'r llong i chwarae rôl môr ladron a chwilio am drysor. Yna wnaeth rhai disgyblion dylunio a chreu bocs er mwyn cadw'r trysor neu ddylunio map trysor roedd yn arwain tuag at y trysor. Ar ddiwedd yn wers roedd y disgyblion yn defnyddio'r eirfa môr leidr i ddisgrifio'r hyn maent wedi neud.											
Disgybl	A				B				C			
	1	2	3	4	1	2	3	4	1	2	3	4
Uchel iawn												
Uchel												
Cyfranol												
Isel												
Isel iawn												

	1	Creu y cwch	2	Chwarae rol	3	Creu bocs/map	4	Defnydd o iaith (i esbonio yr hyn maent wedi gwneud)
--	---	-------------	---	-------------	---	---------------	---	--

Sylwadau			
Disgybl	A	B	C
	- Rhoi cyfarwyddiadau clir iawn. - Yn amlwg yn arweinydd ac yn arwain y disgyblion eraill. - Nid yw ef/hi yn ymwneud llawer gyda'r agwedd chwarae rôl. - Mae ganddo/ganddi gynllun clir iawn am sut dylai'r llong ar focs edrych. - Defnyddio iaith briodol er mwyn disgrifio'r hyn maen nhw eisiau. e.e.. "big ones at the front".	- Dilyn cyfarwyddiadau yn dda. - Chwarae rôl yn dda ac i weld yn mwynhau llawer. - Chwilio am y trysor yn drylwyr. - Defnyddio'r eirfa môr leidr yn dda iawn ac yn medru disgrifio'r hyn mae wedi gwneud yn dda. - Wedi gwneud map trysor ac ysgrifennu cyfarwyddiadau go iawn - Defnydd da o'r eirfa mor leidr ac yn medru esbonio'r hyn mae wedi gwneud."	- Dilyn cyfarwyddiadau yn dda. - Dawel iawn yn ystod creu'r llong - nid yw'n cyfrannu llawer ar lafar ond yn hytrach yn dilyn cyfarwyddiadau'r disgyblion arall. - Chwarae rôl gyda hwyl. - Defnyddio dychymyg yn dda er mwyn cyfoethogi'r amser chwarae rôl. - Defnydd da o'r eirfa mor leidr ac yn medru esbonio'r hyn mae wedi gwneud.

- Mae pob plentyn yn edrych fel petai yn ymwneud a'r dasg yn dda ac yn mwynhau.
- Mae'n amlwg fod y goreuon yn y dosbarth yn dod i'r blaen yn ystod y gweithgaredd hwn, mae 1 neu 2 ddisgybl i weld yn arwain y gweithgaredd o hyd. Oherwydd hwn mae rhai o'r disgyblion mwy tawel yn gorfod dilyn cyfarwyddiau eraill. Mae hwn yn golygu eu bod yn colli mas ar y cyfle i gyfle eu syniadau nhw.
- Mae'r plant yn gweithio yn dda o fewn grwpiau.
- Mae gan y plant "sense of achievement" ar ôl cwblhau'r dasg (casglu trysor).
- Mae angen iddyn nhw ddefnyddio eu sgiliau rhesymu er mwyn ateb problemau.
- Defnydd o'r eirfa mor leidr ac yn medru esbonio'r hyn mae wedi gwneud. (recount experiences)
- Cael y cyfle i ddatblygu sgiliau creadigol wrth ddylunio a chreu'r llong ar focs trysor.
- Gwahanol gymeriadau yn amlwg a phawb yn dangos eu gwahanol gryfderau ac mae pawb yn cael budd a llwyddiant o'r gweithgaredd.

1) Low Activity Isel iawn	Activity at this level can be simple, stereotypic, repetitive and passive. The child is absent and displays no energy. There is an absence of cognitive demand. The child characteristically may stare into space. N.B. This may be a sign of inner concentration.
2) A Frequently Interrupted Activity Isel	The child is engaged in an activity but half of the observed period includes moments of non-activity, in which the child is not concentrating and is staring into space. There may be frequent interruptions in the child's concentration, but his/her Involvement is not enough to return to the activity.
3) Mainly Continuous Activity Cyfranol	The child is busy at an activity but it is at a routine level and the real signals for Involvement are missing. There is some progress but energy is lacking and concentration is at a routine level. The child can be easily distracted.
4) Continuous Activity with Intense Moments Uchel	The child's activity has intense moments during which activities at Level 3 can come to have special meaning. Level 4 is reserved for the kind of activity seen in those intense moments, and can be deduced from the 'Involvement signals'. This level of activity is resumed after interruptions. Stimuli, from the surrounding environment, however attractive cannot seduce the child away from the activity.
5) Sustained Intense Activity Uchel iawn	The child shows continuous and intense activity revealing the greatest Involvement. In the observed period not all the signals for Involvement need be there, but the essential ones must be present: concentration, creativity, energy and persistence. This intensity must be present for almost all the observation period.

Adran C (sylwadau ychwanegol)

5.

